# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-19-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 5 Gorffennaf 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Ddaeth yr un i law

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-18-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd materion i gyflwyno adroddiadau arnyn nhw, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1118 - Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005

Mewn cysylltiad â'r Gorchymyn yma, tanlinellodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol un mater. Nododd nad oes angen yr wybodaeth am unrhyw orchmynion cychwyn blaenorol ar gyfer y gorchymyn terfynol yn ôl Statutory Instrument Practice, ond y gallai fod yn fuddiol ei chynnwys yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym a phenderfynwyd rhoi gwybod am hynny i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Camau i'w cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1119 - Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Olrhain a Labelu) (Cymru) 2005

### LC1120 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 12 Gorffennaf 2005.